Archwilio Cymru
Audit Wales

# Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: persbectif a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3822A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. This document is also available in Welsh.

# Cynnwys


Crynodeb o’r adroddiad 4

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno – cwmpas yr archwiliad hwn 4

Pam y cyflawnom yr archwiliad hwn 5

Trefniadau’r Cyngor ar gyfer adrodd ar berfformiad 5

Yr hyn a ganfuom 6

Mae’r Cyngor yn darparu llawer iawn o wybodaeth am berfformiad i uwch arweinwyr i’w helpu i ddeall persbectif defnyddwyr y gwasanaeth ond mae gwybodaeth am ganlyniadau yn gyfyngedig 6

Argymhellion 9

Atodiadau

Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a’r hyn y gwnaethom chwilio amdano 10

# Crynodeb o’r adroddiad

1 Gwnaethom ystyried safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth a'r wybodaeth am ganlyniadau a ddarparwyd i uwch swyddogion ac uwch aelodau (uwch arweinwyr), a sut y defnyddir y wybodaeth hon yng Nghyngor Gwynedd (y Cyngor).

2 Yn gyffredinol, gwelsom fod y Cyngor yn darparu llawer iawn o wybodaeth am berfformiad i uwch arweinwyr i’w helpu i ddeall persbectif y defnyddwyr gwasanaeth ond mae gwybodaeth am ganlyniadau yn gyfyngedig.

3 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i gryfhau'r wybodaeth a roddir i uwch arweinwyr.

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno – cwmpas yr archwiliad hwn

4 Canolbwyntiom ar y wybodaeth am berfformiad a ddarparwyd i uwch swyddogion ac uwch aelodau (uwch arweinwyr) ynghylch persbectif a chanlyniadau (neu ddeilliannau) defnyddwyr gwasanaeth, a sut y defnyddir y wybodaeth hon. Ni wnaethom gynnal adolygiad llawn o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor nac adolygiad manwl o ansawdd y data y mae'r Cyngor yn ei gasglu. Ni chanolbwyntiodd yr adolygiad ychwaith ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ar newidiadau gwasanaeth penodol na datblygu polisïau a strategaethau.

5 Rydym wedi nodi ein cwestiynau archwilio a'n meini prawf archwilio yn **Atodiad 1**. Mae'r meini prawf archwilio yn y bôn yn nodi sut beth yw da a sut y byddem yn disgwyl dod o hyd iddo.

6 At ei gilydd, roeddem yn chwilio am rannu gwybodaeth perfformiad gydag uwch arweinwyr i'w helpu i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth a pha mor dda y maent yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r canlyniadau y mae'n gweithio tuag atynt. Roeddem hefyd yn edrych i weld bod uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd a gweithredu lle bo angen i wella canlyniadau.

7 Mae hyn yn rhan bwysig o drefniadau i sicrhau bod cynghorau'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Mae hefyd yn ffordd bwysig y gall y Cyngor sicrhau ei hun ei fod yn gweithredu yn unol â'r ffordd 'ymgysylltiad' o weithio wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Heb y wybodaeth hon, mae'n anodd gweld sut y gall uwch arweinwyr ddeall a yw eu polisïau a'u gweithredoedd yn cael yr effaith a fwriedir a gwneud newidiadau lle nad ydynt.

8 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gydag Aelod y Cabinet, Cyfarwyddwr ac uwch swyddog sydd â chyfrifoldeb am drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaed y gwaith hwn gennym yn ystod mis Mehefin 2023.

9 Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn '**A yw'r data ar berfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol?**' Fe wnaethom ni hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau?
- A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ddeilliannau gweithgareddau'r Cyngor?
- A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir?
- A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ddeilliannau?
- A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau?

## Pam y cyflawnom yr archwiliad hwn

10 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

11 Roeddem yn ceisio:

- cael sicrwydd bod yr wybodaeth am berfformiad y mae'r Cyngor yn ei darparu ar gyfer uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliant ei weithgareddau;
- cael sicrwydd bod yr wybodaeth hon am berfformiad yn rhan o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio'i adnoddau a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac
- adnabod cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau.

## Trefniadau'r Cyngor ar gyfer adrodd ar berfformiad

12 Mae'r Cyngor yn llunio adroddiadau perfformiad mewnol bob dau fis. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am berfformiad y gwasanaethau a chynnydd tuag at amcanion llesiant y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau hyn yn cael eu rhannu'n eang gydag aelodau. Fel arfer fe'i rhennir gyda'r pennaeth gwasanaeth a'r Aelod Cabinet â'r portffolio perthnasol. Ddwywaith y flwyddyn, mae dau aelod o'r pwyllgor craffu perthnasol ac aelod 'cysgodol' o'r Cabinet hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd herio perfformiad. Mae Arweinydd y Cyngor yn mynychu un o'r cyfarfodydd hyn ar gyfer pob gwasanaeth bob blwyddyn.

13 Mae Aelodau Cabinet hefyd yn llunio adroddiadau dwy waith y flwyddyn ar gynnydd eu portffolios priodol at sylw eu cyd-Aelodau Cabinet mewn cyfarfod cyhoeddus.

14 Cyflwynir adroddiadau blynyddol amrywiol i'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol, y Cabinet a phwyllgorau craffu. Mae'r rhain yn cynnwys hunanasesiad blynyddol y Cyngor, adroddiad cwynion ac adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

15 Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar sampl o'r mecanweithiau adrodd perfformiad allweddol hyn.

# Yr hyn a ganfuom

# Mae'r Cyngor yn darparu llawer iawn o wybodaeth am berfformiad i uwch arweinwyr i'w helpu i ddeall persbectif defnyddwyr gwasanaeth ond mae gwybodaeth am ganlyniadau yn gyfyngedig

### Mae'r prif adroddiadau perfformiad a gyflwynir i uwch arweinwyr yn rhoi pwyslais ar bersbectif defnyddwyr gwasanaeth gan alluogi uwch arweinwyr i fod â dealltwriaeth dda o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth

16 Mae'r Cyngor yn darparu adroddiadau perfformiad i uwch arweinwyr bob deufis, sy'n cynnwys llawer iawn o wybodaeth sy'n eu helpu i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, roedd tua thraean o'r holl fesurau yn yr adroddiadau perfformiad a adolygwyd gennym yn ymwneud â safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth ac roedd y wybodaeth hon yn berthnasol i amcanion y Cyngor.

17 Mae'r Cyngor yn cynnal arolygon boddhad cwsmer rheolaidd yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth. Yn ei adroddiadau perfformiad mewnol, a gynhyrchir bob dau fis, mae'r Cyngor yn dadansoddi'r arolygon hyn a gwybodaeth gyd-destunol mewn amrywiaeth o ffurfiau (canrannau; niferoedd gwirioneddol unigolion; dyfyniadau uniongyrchol; graffiau) i helpu uwch arweinwyr i ddeall safbwyntiau ei defnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, mae effaith yr wybodaeth hon yn gyfyngedig gan ei bod yn cael ei rhannu â'r aelod Cabinet perthnasol, aelod cysgodol, dau aelod o'r pwyllgor craffu perthnasol a phennaeth y gwasanaeth perthnasol yn unig. Gallai'r wybodaeth hon fod o fwy o werth pe bai'n cael ei rhannu gyda holl aelodau'r Cabinet, o gofio natur drawsbynciol amcanion llesiant y Cyngor.

18 Gan ein bod wedi canfod bod y Cyngor yn darparu cryn dipyn o wybodaeth am farn defnyddwyr gwasanaeth i uwch arweinwyr, archwiliom ymhellach a oedd y wybodaeth hon yn dod o amrywiaeth lawn o bobl. Canfuwyd nad yw'r Cyngor bob amser yn dadansoddi nodweddion gwarchodedig ymatebwyr. Heb hyn, ni all y Cyngor fod yn sicr bod y wybodaeth am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth y

mae'n ei chasglu yn dod o'r amrywiaeth lawn o bobl gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

## Prin yw'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr am ganlyniadau gweithgareddau'r Cyngor, sy'n cyfyngu eu gallu i reoli perfformiad yn effeithiol

19 Ar y cyfan, canfuwyd gennym mai prin oedd yr wybodaeth am berfformiad i helpu uwch arweinwyr ddeall canlyniadau gweithgareddau'r Cyngor. Yn hytrach, mae gwybodaeth am berfformiad yn canolbwyntio ar weithredoedd ac allbynnau.

20 Mae'r adroddiadau perfformiad mewnol a gynhyrchir bob dau fis ac adroddiadau'r Aelod Cabinet a gynhyrchir ddwywaith y flwyddyn, y mae uwch arweinwyr yn dibynnu arnynt i ddeall a monitro perfformiad, yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am ganlyniadau. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar gamau gweithredu yn hytrach na gwerthuso effaith y camau hynny.

21 Er enghraifft, mae adran 'yr hyn a gyflawnwyd ers y cyfarfod diwethaf' adroddiad perfformiad Adran yr Economi a Chymuned yn rhestru gweithredoedd a phrin iawn yw'r wybodaeth am ganlyniadau. Dim ond un deilliant oedd wedi'i nodi mewn adroddiad perfformiad ar naw prosiect.

22 Mae hyn yn cyfyngu gallu uwch arweinwyr i ddeall effaith gweithgareddau'r Cyngor a pha un a yw'n bodloni ei amcanion.

## Mae trefniadau'r Cyngor i wirio cywirdeb data persbectif defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau yn gyfyngedig

23 Meysydd gwasanaeth unigol y Cyngor sy'n gyfrifol am sicrhau bod data a ddarperir i uwch arweinwyr yn gywir. Ceir tystiolaeth bod gan wasanaethau unigol rai trefniadau ar waith i wirio cywirdeb gwybodaeth am berfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn cwmpasu cywirdeb data persbectif defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau'r Cyngor. O ystyried bod y Cyngor yn rhoi pwyslais penodol ar werth darparu gwybodaeth am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth i uwch arweinwyr, byddem yn disgwyl y byddai trefniadau'r Cyngor ar gyfer gwirio cywirdeb ei ddata hefyd yn cwmpasu'r wybodaeth hon.

24 Caiff uwch arweinwyr eu hysbysu drwy'r adroddiadau misol lle mae data, yn gyffredinol, wedi'i gywiro. Ond ni allai'r Cyngor ddangos bod ganddo drefniadau cadarn i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i aelodau am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau yn gywir. O ganlyniad, ceir perygl y gallai penderfyniadau gael eu gwneud a chamau gael eu cymryd ac adnoddau gael eu neilltuo yn seiliedig ar wybodaeth anghywir.

## Mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth sydd ganddo i wneud newidiadau yn y meysydd gwasanaeth ond mae wedi'i gyfyngu gan ei wybodaeth gyfyngedig am ganlyniadau

25 Pan fydd perfformiad gwael yn cael ei nodi trwy wybodaeth am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth, cyflwynir newidiadau ar lefel weithredol ac adroddir canlyniadau i uwch arweinwyr ar sut mae hyn yn gwella cynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei amcanion. Mae'r Cyngor yn dadansoddi ymatebion persbectif defnyddwyr gwasanaeth ac yn cynnig esboniad pan ystyrir bod hyn yn is na 'boddhaol'; caiff y camau unioni yn yr achos hwnnw hefyd eu nodi a rhennir gwersi a ddysgwyd gydag uwch arweinwyr.

26 Fodd bynnag, oherwydd i ni ganfod bod y Cyngor yn darparu gwybodaeth gyfyngedig i helpu uwch arweinwyr ddeall canlyniadau ei weithgareddau, yn rhesymegol mae i ba raddau y gall ddefnyddio'r wybodaeth hon i wneud newidiadau wedyn, yn gyfyngedig.

## Mae adolygiad diweddar y Cyngor o effeithiolrwydd ei drefniadau perfformiad wedi arwain at welliannau i'w wybodaeth am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth, ond nid yw wedi mynd i'r afael â gwendidau o ran gwybodaeth am ganlyniadau

27 Cynhaliodd y Cyngor adolygiad o effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli perfformiad yn ddiweddar. Yn rhan o hyn, nododd bwysigrwydd gwybodaeth am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth gan ymgorffori mesurau newydd yn ei adroddiadau. Er enghraifft, roedd chwech o'r 21 o fesurau yn ymwneud â phersbectif defnyddwyr gwasanaeth yn y 'dangosfwrdd' templed a ddarparwyd i reolwyr yn dilyn yr adolygiad. Mae'r gymhareb hon yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi cipolwg i uwch arweinwyr am lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid.

28 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi myfyrio ar y nifer gyfyngedig o fesurau canlyniadau sydd ganddo ar hyn o bryd. Os na all y Cyngor ddangos pa un a yw'n cyflawni ei ganlyniadau a sut y mae'n gwneud hynny, mae hyn yn tanseilio effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli perfformiad.

29 Nid yw'r Cyngor yn cymharu gwybodaeth am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth na chanlyniadau y mae'n ei chasglu â'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau neu ddulliau casglu tebyg. Nid ydym yn golygu cymharu perfformiad fel y cyfryw, ond i'w helpu i ddysgu sut mae sefydliadau eraill yn darparu gwybodaeth am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau i helpu i gryfhau ei drefniadau ei hun. Mae hon yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

**Gwybodaeth am bersbectif y defnyddiwr gwasanaeth**

**A1** Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i alluogi uwch arweinwyr i ddeall persbectif y defnyddiwr gwasanaeth trwy:

- rannu ei wybodaeth perfformiad am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth gydag amrywiaeth ehangach o uwch arweinwyr i sicrhau bod ei werth cymaint â phosibl o ystyried themâu trawsbynciol ei amcanion llesiant; a
- sicrhau ei hun bod yr wybodaeth am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth yn deillio o'r amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**Gwybodaeth am ganlyniadau**

**A2** Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau a fwriedir.

**Trefniadau i wirio ansawdd a chywirdeb data**

**A3** Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod ganddo drefniadau cadarn i wirio ansawdd a chywirdeb yr wybodaeth y mae'n ei darparu i uwch arweinwyr am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn y gwnaethom chwilio amdano

**Arddangosyn 2: cwestiynau allweddol a'r hyn y gwnaethom chwilio amdano**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio'i ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiom ni i benderfynu ar ein canfyddiadau.

| **Lefel 1** | |
|---|---|
| A yw'r data ar berfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol? | |
| **Lefel 2** | **Meini Prawf Archwilio[1] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)** |
| 2.1 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau? | • Mae'r wybodaeth:<br>– yn berthnasol i'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun;<br>– yn ddigon i'w gwneud yn bosibl deall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau;<br>– yn ddigon i ddarparu dealltwriaeth am gynnydd tuag at y deilliannau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni;<br>– yn dod oddi wrth yr amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; ac<br>– yn cael ei defnyddio i oleuo cymariaethau â pherfformiad cyrff tebyg lle y bo'n berthnasol.<br>• Mae'r Cyngor wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chasglu. |

[1]Goleuwyd ein meini prawf archwilio gan ein gwybodaeth gronnol o waith archwilio blaenorol yn ogystal â'r hierarchaeth cwestiynau a dangosyddion perfformiad yr ydym wedi'u datblygu i ategu ein harchwiliadau mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

| Lefel 1 | |
|---|---|
| A yw'r data ar berfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol? | |
| **Lefel 2** | **Meini Prawf Archwilio[1] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)** |
| 2.2 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ddeilliannau gweithgareddau'r Cyngor? | • Mae'r wybodaeth yn dod o ystod o ffynonellau tystiolaeth i ddarparu golwg gyfannol ar gynnydd.<br>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd dros y tymor byr, canolig a hir.<br>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro'r modd y cyflawnir deilliannau sy'n cwmpasu nifer o feysydd gwasanaeth a/neu sefydliadau. |
| 2.3 A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir? | • Mae gan y Cyngor drefniadau eglur i wirio ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu ar gyfer uwch arweinwyr.<br>• Lle canfyddir gwendidau yn ansawdd y data, mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy. |
| 2.4 A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ddeilliannau? | • Lle canfyddir perfformiad gwael mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i wneud newidiadau/ymyriadau.<br>• Ceir tystiolaeth bod y Cyngor yn gwella'i gynnydd tuag at ei ddeilliannau o ganlyniad i'w ymyriadau. |
| 2.5 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau? | • Mae'r Cyngor yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr i sicrhau ei bod yn briodol ac yn berthnasol.<br>• Mae'r Cyngor yn cymharu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu â'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau tebyg i adnabod cyfleoedd i gryfhau ei drefniadau. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.